

Rhif: WG20549



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Newidiadau arfaethedig i gylch arolygu Estyn ac amseru ar gyfer cynlluniau gweithredu ar ôl arolygiad



Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2014

Newidiadau arfaethedig i gylch arolygu Estyn ac amseru ar gyfer cynlluniau gweithredu ar ôl arolygiad

- Cynulleidfa** Cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin yng Nghymru, darparwyr addysg bellach, awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn darparu dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i gylch arolygu Estyn ac amseru ar gyfer cynlluniau gweithredu ar ôl arolygiad. Mae hefyd yn darparu sylwadau Llywodraeth Cymru ac Estyn ar yr ymatebion a'r cynigion ar gyfer newid.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Perfformiad Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: SMED1@cymru.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau
- Dogfennau cysylltiedig** *Newidiadau arfaethedig i gylch arolygu Estyn ac amseru ar gyfer cynlluniau gweithredu ar ôl arolygiad (2013)*

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cefndir	3
Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	4
Crynodeb o'r ymatebion	5
Crynodeb o'r sylwadau ychwanegol i'r ymgynghoriad	28
Y camau nesaf	30
Rhestr ymatebwyr	31

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru ac Estyn wedi cynnal cyfres o ymgynghoriadau ar y cyd ar y canlynol:

- y gofyniad i Estyn arolygu o fewn cyfnod penodol o ddyddiad yr arolygiad diwethaf;
- hyd yr ysbeidiau rhwng arolygiadau;
- y cyfnod o rybudd am arolygiad a roddir i ysgolion a darparwyr gan Estyn;
- y gofyniad i ysgolion gynnal cyfarfodydd cyn arolygiad;
- y gofyniad am holiaduron rhieni/gofalwyr a dysgwyr;
- amser a ganiateir ar gyfer paratoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad.

Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus electronig ar wefan Llywodraeth Cymru ar 6 Chwefror 2013 a daeth i ben ar 1 Mai 2013. Fe'i tynnwyd at sylw ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid a dysgu seiliedig ar waith. Cafwyd 131 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

Roedd y dadansoddiad o ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn yn ôl sefydliad fel a ganlyn:

Ysgolion	52	39%
Awdurdodau Lleol	4	3%
Colegau	14	10%
Darparwyr Hyfforddiant	7	5%
Undebau Athrawon	5	4%
Trydydd Sector/Sefydliadau Elusennol	4	3%
Llywodraethwr Ysgol	1	1%
Pennaeth	1	1%
Dirprwy Bennaeth	1	1%
Gwasanaeth Ymgynghorol Addysg	1	1%
Awdurdod Esgobaethol	2	2%
Cyngor Tref	1	1%
Consortiwm	1	1%
Y Gwasanaeth Addysg Catholig	1	1%
Eraill	36	27%

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ac Estyn fersiwn o'r ymgynghoriad a oedd yn ystyriol o blant yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2013. Cynhaliwyd gweithdai gyda 196 o ddisgyblion o 73 o ysgolion cynradd a 123 o ysgolion uwchradd yn y gogledd, y de a'r canolbarth.

Hefyd, comisiynwyd yr Uned Pobl a Gwaith gan Lywodraeth Cymru i gynnal astudiaeth ynglŷn â gofynion arolygu Estyn er mwyn cael barn grwpiau ac unigolion nad oeddent yn ddarparwyr addysgol ac nas cyrhaeddir fel arfer

drwy brosesau ymgynghori confensiynol. Defnyddiodd yr astudiaeth grwpiau ffocws a chyfwelwyd â chyfranogwyr er mwyn casglu ymatebion. Casglodd yr astudiaeth farn amrywiaeth o randdeiliaid o bob rhan o Gymru yn y chwe ardal ddaearyddol ganlynol – Gogledd-ddwyrain Cymru, Gogledd-orllewin Cymru, Gorllewin Cymru, y cymoedd, dinas ac ardal wledig.

O ystyried proffil y rhai a oedd yn cymryd rhan, eu gwybodaeth a'r ffordd yr oedd y cwestiynau wedi'u geirio, canolbwyntiodd llawer o'r drafodaeth ar arolygiadau o ysgolion yn hytrach na darparwyr neu leoliadau eraill. Cafodd nifer yr ymatebion i bob cwestiwn ei gyfrif neu lle nad oedd modd gwneud hynny, ei amcangyfrif gan hwyluswyr. Er bod y cwestiynau a ofynnwyd yn ymgynghoriad yr Uned Pobl a Gwaith a'r ymgynghoriad a oedd yn ystyriol o blant, yr un oedd cyd-destun ac ystyr y cwestiynau.

Mae'r ymatebion i arolwg yr Uned Pobl a Gwaith a'r ymgynghoriad a oedd yn ystyriol o blant eisoes wedi cael eu dadansoddi. Mae'r papur hwn yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus electronig a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n ei gyfuno â'r ymatebion i'r ddau ymgynghoriad arall er mwyn ffurfio dadansoddiad cyffredinol o'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd. Mae ymatebion Llywodraeth Cymru ac Estyn i'r cwestiynau hynny yn ystyried y dadansoddiadau o bob un o'r tri ymgynghoriad.

Cefndir

Cyflwynodd Estyn drefniadau arolygu newydd ym mis Medi 2010 ar ddechrau cylch chwe blynedd o arolygiadau (2010-2016) ar gyfer y rhan fwyaf o ddarparwyr y mae'n eu harolygu. Cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau arolygu hynny gan Estyn ar ddechrau 2012 drwy ymgynghoriad anffurfiol, holiaduron a chyfarfodydd ffocws â rhanddeiliaid ac arolygwyr. Roedd canlyniad yr adolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan ynglŷn â'r trefniadau presennol. Roedd y mwyafrif llethol o randdeiliaid am gadw'r trefniadau fel yr oeddent i raddau helaeth a dim ond ychydig o awgrymiadau eithaf mân ar gyfer gwelliannau a gafwyd.

Fodd bynnag, cododd adolygiad Estyn ddau fater pwysig. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r ffordd yr oedd ysgolion a darparwyr eraill yn gallu rhagweld gyda rhywfaint o sicrwydd pryd y byddai eu harolygiad yn digwydd yn ystod y cylch arolygu chwe blynedd. Roedd yr ail yn ymwneud â'r cyfnod rhybudd cyn arolygiadau, lle teimlai nifer sylweddol o randdeiliaid y byddai'n ddymunol rhoi llai o rybudd i ysgolion a darparwyr eraill neu ddim rhybudd o gwbl. Mae'r ddau fater hyn yn wahanol i'w gilydd. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r angen i Estyn arolygu pob ysgol a darparwyr eraill o fewn chwe blynedd i'w harolygiad diwethaf. Mae'r ail yn ymwneud â hyd y cyfnod rhybudd a roddir i ysgolion a darparwyr eraill cyn arolygiad (20 diwrnod gwaith ar hyn o bryd). Mae mater pellach yn ymwneud â'r cyfnod sydd gan ysgolion a darparwyr i baratoi ar gyfer eu cynllun gweithredu ôl-arolygiad.

Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafwyd 131 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus electronig ar wefan Llywodraeth Cymru; cymerodd 65 ran yn astudiaeth yr Uned Pobl a Gwaith; a chymerodd 196 o ddisgyblion ran yn yr ymgynghoriad a oedd yn ystyriol o blant.

Roedd mwyafrif llethol o blaid lleihau natur ragweladwy arolygiadau.

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr o'r farn mai cyfnod arolygu o 6 blynedd oedd yr opsiwn gorau a chytunwyd y dylid cadw'r cyfarfodydd i rieni cyn arolygiad a'r holiaduron i rieni a dysgwyr.

Cymysg fu'r ymatebion o ran lleihau'r cyfnod rhybudd cyn arolygiad a lleihau'r amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Fodd bynnag, cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr y dylai fod cyfnod cyson i baratoi cynlluniau ôl-arolygiad ar gyfer pob sector addysg ac awgrymwyd mai'r cyfnod cyfredol (45 diwrnod gwaith) oedd y cyfnod mwyaf priodol.

Crynodeb o'r ymatebion

C1. A ddylid newid y ddeddfwriaeth fel nad yw darparwyr yn gallu rhagfynegi dyddiad eu harolygiad nesaf?

Yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd oedd:

Cytuno	Anghytuno	Niwtral	Dim ymateb
69	47	13	2
52%	36%	10%	2%

Sylwadau

Dyma rai o sylwadau'r ymatebwyr:

Cytuno

Awgrymodd rhai ymatebwyr, gan mai diben arolygiad oedd rhoi adolygiad teg o gyflawni, systemau a phrosesau, fod y gallu i ragweld pryd y byddai arolygiad yn cael ei gynnal yn peryglu barn o'r fath. Dylai ysgolion gael eu gweld fel y cânt eu rhedeg bob dydd. Os yw ysgol yn defnyddio arfer addysg da dylai hyn gael ei weld bob dydd ac nid ar adeg arolygiad yn unig a dylai ysgolion fod yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyson dda ar bob adeg. Awgrymwyd y dylai ysgolion ddefnyddio hunanwerthuso fel adnodd i wella'r ysgol a pheidio â dibynnu ar baratoi ar gyfer arolygiad.

Teimlid y byddai'r gallu i ragweld arolygiadau o bosibl yn peri i rai sefydliadau baratoi, hyfforddi ac o bosibl gynnal digwyddiadau na fyddent wedi'u trefnu fel arfer. Credid bod gorbaratoi neu fod yn barod ar gyfer arolygiad eisoes yn niweidiol ac yn cynyddu straen ymhlith y staff. Byddai cael gwared ar y gallu i ragweld arolygiad yn lleihau'r pwysau a'r straen ar ysgolion yn y cyfnod cyn arolygiad.

Awgrymwyd y dylai ysgolion sy'n cael adroddiad da yn yr arolygiad diwethaf ac yr oedd eu data perfformiad yn dda gael eu harolygu'n llai aml na'r rhai yr oedd eu perfformiad yn wannach ac y dylai ysgolion gael eu harolygu ar fyr rybudd.

Cyfeiriwyd ar y cylch arolygu yn Lloegr sy'n rhoi rhybudd byr iawn, ac ystyriwyd ei fod yn rhoi darlun mwy cywir a realistig o ysgol wrth ei gwaith. Teimlai ymatebwyr y dylai ysgolion baratoi a diweddarau eu hadroddiadau hunanwerthuso drwy'r amser yn hytrach na'u paratoi'n artiffisial ar gyfer arolygiadau bob chwe blynedd. Yn Lloegr gall arolygwyr weld yr adroddiadau hyn o fewn 24 awr i roi rhybudd am arolygiad o dan fframwaith cyfredol Ofsted.

Anghytuno

Awgrymodd ymatebwyr a anghytunodd fod angen elfen o baratoi a chynllunio er mwyn bodloni meini prawf arolygiad a chyflwyno'r ddogfennaeth angenrheidiol. Teimlid ei bod yn ddefnyddiol i ysgolion wybod beth oedd y cyfnod arolygu er mwyn iddynt gynllunio gwelliannau a datblygiadau yn yr hirdymor. Mewn ymateb i ganfyddiadau o arolygiad blaenorol, gallai ysgolion

gynllunio'n strategol i wneud y gwelliannau a'r cynnydd angenrheidiol er mwyn dangos gwelliant sylweddol yn yr ysgol yn yr arolygiad nesaf. Pe câi llai o rybudd am arolygiad ei roi ni fyddai darparwyr yn cael cyfle i gynllunio eu datblygiad yn briodol.

Awgrymwyd bod cylch chwe blynedd o arolygiadau a chyfnod rhybudd yn iawn fwy neu lai a chredid bod hynny'n rhoi digon o amser i argymhellion gael eu gweithredu'n llawn a'u hatgyfnerthu heb fod o dan bwysau i fod 'yn barod ar gyfer arolygiad' drwy'r amser. Awgrymwyd y byddai rhai ysgolion yn ymatal rhag prosiectau a chreadigrwydd pe baent yn teimlo y gallent gael 'ymweliad' unrhyw bryd ac nad oedd y gallu i ragweld yn fras pryd y byddai ysgol yn cael ei harolygu yn gwneud llawer o wahaniaeth, mae staff am ymgymryd â rhywfaint o waith paratoi ond mae'r data a barn rhieni yn datblygu dros gyfnod hir ac ni ellid eu 'creu o ddim byd'.

Roedd rhai ymatebwyr yn amau pa mor hyblyg fyddai hyn oherwydd nifer yr ysgolion yng Nghymru ac awgrymwyd y byddai hyn yn hynod anodd i'w reoli er mwyn bod yn deg. Byddai arwain at rai ysgolion yn cael eu harolyga'n amlach nag eraill. Awgrymwyd hefyd y byddai'r bygythiad parhaus bod arolygiad ar fin digwydd yn rhoi pwysau ar athrawon ac y gallai newid eu blaenoriaethau.

Nododd un ymatebydd fod cael gwared ar natur ragweladwy arolygiadau yn golygu na allai ALLau gynllunio eu rhaglen ymyrryd mewn perthynas â'r cylch arolygu gan awgrymu bod dim rhybudd neu gylchoedd arolygu na ellir eu rhagweld yn creu mwy o straen gan eu bod yn ceisio bod yn barod drwy'r amser.

Sylwadau ychwanegol

Cododd un ymatebydd gwestiwn ynglŷn â diben arolygiadau a gofynnodd ai'r bwriad oedd cefnogi neu gosbi neu ai ymarfer rheoli ansawdd oeddent. Awgrymwyd hefyd y byddai newid y drefn yng nghanol cylch yn negyddu'r opsiwn hwn, pe bai newidiadau dylent gael eu gwneud ar ddechrau'r cylch nesaf. Fodd bynnag, nododd eraill fod newid enfawr wedi digwydd ym maes addysg gan gynnwys yn natur a hyd a lled arolygiadau Estyn a bod angen i ddarparwyr gael mwy o sefydlogrwydd eto cyn bod unrhyw newidiadau eraill yn cael eu gwneud ac awgrymwyd y dylid gadael pethau fel y maent.

Roedd canfyddiadau'r astudiaeth a gynhaliwyd gan yr **Uned Pobl a Gwaith** yn dangos bod y mwyafrif llethol o blaid newid y ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau na allai ysgolion ragweld pryd y byddai eu harolygiad nesaf yn digwydd.

Sylwadau

Cytuno

Awgrymodd y rhai a gytunodd y dylid newid y ddeddfwriaeth y byddai'n atal ysgolion rhag creui sioe i'r arolygwyr ac y dylai arolygiadau arolygu realiti'r ysgol o ddydd i ddydd. Awgrymwyd hefyd y byddai'n lleddfu pryder staff yr

ysgol wrth baratoi ar gyfer arolygiadau, annog ysgolion i fod yn barod ar gyfer arolygiad ar unrhyw adeg a bod cylch arolygu o chwe blynedd yn rhy hir.

Anghytuno

Awgrymodd y rhai a anghytunodd nad oedd angen newid ar yr amod bod ysgolion yn gwerthuso eu hunain yn dda a bod y cylch cyfredol, er gwaethaf rhai gwendidau, yn gweithio'n dda.

Yr ymatebion i'r **ymgyngoriad a oedd yn ystyriol o blant** oedd:

Cytuno	Anghytuno	Niwtral	Dim ymateb
105	45	36	10
54%	23%	18%	5%

Sylwadau

Dyma sampl o sylwadau disgyblion:

Cytuno

- Pe gallai'r ysgol ddyfalu (pryd y câi arolygiad ei gynnal) gallai baratoi ymhell ymlaen llaw er mwyn ei gwneud yn well ac ni fyddai hynny'n deg ar ysgolion eraill.
- Byddai'r ysgol bob amser ar ei gorau.
- Fel na fyddai ysgolion yn cael amser penodol pryd maent yn gwybod eu bod yn cael eu harolygu (bod ysgolion yn cael eu gweld fel y maent o ddydd i ddydd).

Anghytuno

Os nad yw'r ysgol yn gwybod pryd mae'r arolygwyr yn dod pan fyddan nhw'n cyrraedd bydd pawb dan straen.

Mae ein hysgol cystal fel ein bod yn barod am bopeth.

Byddai newid amseroedd arolygu yn annheg.

Ni fyddai'n deg newid y rheol 6 blynedd oherwydd os daw'r arolygwyr yn ddiarwybod i ni ac nad yw rhai athrawon yma gallai hynny roi argraff wael o'r ysgol.

Sylwadau ychwanegol

Nododd disgyblion hefyd fod arolygiadau yn creu gormod o straen nid yn unig ar athrawon ond ar fyfyrwyr hefyd; gallai myfyrwyr sensitif deimlo o dan straen mawr am fod eu haddysg yn dibynnu ar arolygiadau; mae arolygiadau yn bwysig ac mae angen i rieni gael gwybod am addysg eu plant ond os bydd yr athrawon yn gwybod am yr arolygiadau yn gynt gallant roi mwy o bwysau ar y plant.

Casgliad – cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr i bob un o'r tri ymgynghoriad y dylid newid y ddeddfwriaeth er mwyn atal ysgolion a darparwyr eraill rhag rhagweld pryd y câi eu harolygiad nesaf ei gynnal.

Ymateb Llywodraeth Cymru – dylai arolygiadau Estyn gael eu hystyried yn brosesau gwella cefnogol ac yn gyfle i ddarparwyr asesu eu hunanwerthuso a'u datblygiad eu hunain. Ni ddylai arolygiadau fod yn ddigwyddiad untro sy'n golygu gormod o waith baratoi; dylai perfformiad ysgolion fod ar yr un lefel yn gyson. Dylai arolygwyr weld ysgolion fel y maent o ddydd i ddydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r farn na ddylai fod modd rhagweld arolygiadau, hyd y gellir, ac mae o'r farn y dylid diwygio'r Rheoliadau cyfredol.

Ymateb Estyn – mae Estyn yn cytuno y dylid diwygio'r Rheoliadau er mwyn cyfyngu ar y gallu i ragweld arolygiad ac mae'n croesawu'r gefnogaeth i'r newid hwnnw.

Cynnig – mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid diwygio'r Rheoliadau cyfredol er mwyn dileu'r cyswllt rhwng arolygiadau blaenorol ac arfaethedig a'i gwneud yn ofynnol i bob darparwr addysg a hyfforddiant gael ei arolygu o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o chwe blynedd yn dechrau 1 Medi 2014.

C2. Yn eich barn chi, beth yw'r hyd amser gorau ar gyfer arolygu'r holl ddarparwyr o leiaf unwaith?

Yr ymatebion i'r **ymgyngoriad cyhoeddus ar y cyd** oedd:

6 blynedd	6-7 mlynedd	7 mlynedd	8 mlynedd	9 mlynedd	3-5 mlynedd	Dim ymateb
92	1	9	7	8	1	13
70%	1%	7%	5%	6%	1%	10%

Sylwadau

6 blynedd

Mae'r cylch presennol yn gweithio, mae'n gyfnod rhesymol o amser, gan sicrhau bod darparwyr yn cynnal ansawdd dysgu a'i wella'n barhaus, ac mae'n rhoi amser i wneud cynnydd rhwng cylchoedd. Teimlid bod angen arolygiadau rheolaidd a byddai cyfnod hwy yn arwain at ddirywiad mewn safonau. Awgrymodd ymatebwyr fod 6 blynedd yn rhoi cyfle i gynllunio'n effeithiol er mwyn sicrhau newid a datblygiad. Fodd bynnag, awgrymwyd y gellid arolygu meysydd pwnc allweddol yn amlach.

Teimlai ymatebwyr hefyd fod 6 blynedd yn dderbyniol gan ei bod yn golygu y câi ysgol ei harolygu o leiaf unwaith yn ystod addysg plentyn yn y sefydliad hwnnw.

Nododd rhai fod 6 blynedd eisoes yn gyfnod hir rhwng arolygiadau, bod adroddiad ymhell o fod yn gyfredol erbyn i'r un nesaf gael ei ysgrifennu ac awgrymwyd y gallai mynd y tu hwnt i 6 blynedd alluogi ysgolion gwan neu ysgolion sy'n methu fod heb eu herio am gyfnod afresymol o hir. Gallai ymestyn y cyfnod olygu y câi ysgolion sy'n cael problemau eu gadael heb oruchwyliaeth am gyfnod rhy hir gan arwain at safonau ac ansawdd is.

Awgrymwyd y dylai pob darparwr gael ei arolygu o fewn cyfnod o 6 blynedd, ond y dylai fod hyblygrwydd i arolygu fwy nag unwaith mewn cylch o 6 blynedd pe bai safonau wedi gostwng. Teimlid bod angen mwy o ffocws ar yr ysgolion hynny a oedd yn achos pryder. Awgrymwyd y dylai'r darparwyr hynny sy'n perfformio'n dda gael eu harolygu'n llai aml oni bai bod amgylchiadau arbennig yn codi megis newidiadau mewn perfformiad na ellir eu hesbonio.

Awgrymodd ymatebwyr hefyd y dylai Estyn ystyried cynnal ymweliad sicrhau ansawdd mwy ffurfiol bob blwyddyn, wedi'i gysylltu â'i gylch hunanasesu o bosibl, gan Arolygydd Cyswllt sy'n rhoi gwybod pryd y bydd angen cynnal yr arolygiad nesaf, neu "gyfarfod/adolygiad ffurfiol" ag Arolygydd Cyswllt drwy gydol y cyfnod rhwng arolygiadau waeth beth fo canlyniad yr arolygiad blaenorol. Gallai hyn arwain at sefyllfa lle mae rhai darparwyr yn cael eu harolygu'n llai aml/amlach nag eraill. Byddai arolygiadau thematig amlach yn ddefnyddiol hefyd ac yn rhywbeth i'w groesawu.

6-7 mlynedd

Cynigiodd yr unig ymatebydd y dylid cynnal arolygiadau cylch gwaith yn amlach gan roi cyfle i Estyn fonitro rhwng arolygiadau ffurfiol a rhybuddio'r awdurdod lleol perthnasol os oedd pryderon. Yn lle cyfnod penodol rhwng arolygiadau gallai arolygwyr benderfynu ar amserlen briodol a gallai Adroddiad yr Arolygiad nodi'r amserlen ar gyfer yr arolygiad nesaf (byddai ysgol sy'n perfformio'n dda yn cael mwy o fwch rhwng arolygiadau nag ysgol sy'n tangyflawni).

7 mlynedd

Roedd un ymatebydd o'r farn na ddylai ysgolion gael eu harolygu fwy nag unwaith yn ystod cylch addysg plentyn ond os oedd data ysgol yn dangos bod perfformiad yn dirywio dros amser, dylai fod gan Estyn bob rhyddid i ailymweld yn amlach.

8 mlynedd

Roedd un ymatebydd o'r farn y byddai'n cynnig mwy o hyblygrwydd yn y system arolygu. Awgrymwyd hefyd, gan fod plant ysgol gynradd fel arfer yn cael saith mlynedd o addysg amser llawn a blwyddyn o addysg feithrin ran amser, a dysgwyr ysgol uwchradd rhwng pump a saith mlynedd yn yr ysgol, y byddai cyfnod o wyth mlynedd yn ymddangos yn synhwyrol ac y byddai'n gwarantu adroddiadau o fewn cyfnod plentyn yn yr ysgol neu o fewn cyfnod rhesymol ymlaen llaw.

9 mlynedd

Awgrymodd un ymatebydd pe câi llai o rybudd ei roi ac nad oedd darparwyr yn gwybod pryd y byddent yn cael eu harolygu, byddai angen mwy o flynyddoedd i gynnal pethau'n iawn. Awgrymwyd hefyd y dylai ysgolion ardderchog neu dda gael eu harolygu o fewn 9 neu hyd yn oed 10 mlynedd.

Sylwadau ychwanegol

Awgrymodd ymatebwyr eraill fod cyfnod o chwe blynedd yn rhy hir, y gallai fod yn bosibl i ysgol fod yn anfoddhaol am gyfnod addysg cyfan disgybl yno.

Gallai'r un peth fod yn wir lle tybid bod ysgol yn ardderchog, gallent fod yn hunanfodlon am y pum mlynedd nesaf.

Awgrymwyd amserlenni eraill – 6 mis (i ysgolion sy'n perfformio'n dda), ac o leiaf 3 blynedd, 3-4 mlynedd (arolygiadau llai manwl gydag ymweliad dilynol os oedd angen), a chylch o 4 blynedd, o fewn 4 blynedd i benodi pennaeth newydd, 4-6 blynedd, 5 mlynedd, neu 6-8 mlynedd ar raddfa lithro.

Gofynnodd un ymatebydd a oedd modd defnyddio gwahanol fodolau arolygu fel y gellid cadarnhau perfformiad rhai ysgolion a oedd yn wynebu risg drwy arolygiadau dirybudd. Neu arolygu ar wahanol adegau, er enghraifft – pe bai darparwr yn cael sgôr anfoddfaol/boddhaol, yna dylai ailarolygiad o fewn blwyddyn fod ar gael. Awgrymwyd y dylid cynnal arolygiadau interim, gydag adolygiad flwyddyn ar ôl arolygiad o leiaf er mwyn cadarnhau cynnydd ar gynlluniau gweithredu ac ystyried cynnal ailarolygiad i'r darparwyr hyfforddi a fyddai am wellau eu sgôr.

Teimlai ymatebydd arall y gallai'r pedwar consortiwm rhanbarthol, o ystyried eu cyfrifoldeb am fonitro a herio ysgolion, fod yn llunio barn ar ansawdd hunanwerthuso ysgolion ac o ddata ar berfformiad y cytunwyd arnynt a'u gwybodaeth am yr ysgolion, y gallent lunio barn ar eu perfformiad. Ar y sail hon, dylai fod modd arolygu ysgolion yn wrthgyfartal â llwyddiant, ar yr amod bod ymgynghori priodol â rhanddeiliaid ynglŷn â'r data y dylid eu defnyddio i fonitro perfformiad ysgol a'r hyn a fyddai'n ysgogi ymweliad arolygu. Yna ni fyddai angen cylch arolygu i bob diben.

Nododd eraill fod angen i'r fframwaith arolygu aros yn gyson fel bod ysgolion yn cael cyfle i weithredu gofynion cyn dechrau unwaith eto ar gylch newydd o fewn fframwaith newydd. Un opsiwn o bosibl fyddai cyhoeddi fframwaith newydd a rhoi cyfnod o 12 mis cyn dechrau'r cylch arolygu fel y gall sefydliadau addasu eu darpariaeth os oes angen cyn bod dyfarniadau yn cael eu gwneud.

Canfyddiad yr astudiaeth a gynhaliwyd gan yr **Uned Pobl a Gwaith** oedd bod dros dri chwarter y rhai a gymerodd ran o'r farn y dylai ysgolion gael eu harolygu o fewn 6 blynedd. Roedd llai na chwarter o'r farn y dylai ysgolion gael eu harolygu o fewn 7-8 mlynedd.

Sylwadau

Dyma sylwadau rhai ymatebwyr:

Awgrymodd y rhai a deimlai y dylai ysgolion gael eu harolygu'n **amlach nag unwaith bob 6 blynedd** y byddai staff ysgolion yn ymgyfarwyddo ag arolygiadau ac y byddai'n dod yn ffordd naturiol o weithio. Teimlid y byddai adroddiadau arolygiadau ysgolion yn gyfredol ac yn sicrhau ansawdd pe bai arolygiadau'n llai manwl ond cydnabuwyd hefyd y byddai angen mwy o adnoddau pe bai arolygiadau amlach.

Awgrymodd rhai cyfranogwyr hefyd nad oedd data ysgolion yn rhoi darlun llawn ac y gallent fod yn gamarweiniol, y gallai awdurdodau lleol neu

gonsortia arolygu os nad oedd gan Estyn ddigon o adnoddau (gan helpu i feithrin y berthynas rhwng ysgolion ac awdurdodau), fod angen i Estyn ymweld ag ysgolion da er mwyn casglu enghreifftiau o arfer da a chynnal arolygiadau mwy rheolaidd o ysgolion cynradd oherwydd teimlid bod data ar ysgolion cynradd yn llai dibynadwy na data ysgolion uwchradd.

Nododd y rhai a deimlai **y dylai rhai ysgolion gael eu harolygu dros gyfnod hwy (7-8 mlynedd fel arfer)** ei bod yn dibynnu ar berfformiad yr ysgol (er enghraifft, nid oedd angen arolygu ysgol sy'n perfformio'n dda mor aml), bod hunanwerthuso mewn ysgolion yn gwella ac y dylai adroddiadau blynyddol ysgolion gael eu harolygu bob blwyddyn.

Yr ymatebion i'r **ymgyngoriad a oedd yn ystyriol o blant** oedd:

6 blynedd	7 mlynedd	8 mlynedd	9 mlynedd	Arall	Dim ymateb
77	25	5	3	73	13
39%	13%	3%	1%	37%	7%

O'r disgyblion hynny a ysgrifennodd 'arall', awgrymwyd blwyddyn gan bedwar, awgrymwyd 1.5 blynedd gan un, awgrymwyd dwy flynedd gan 2, awgrymwyd tair blynedd gan 10, awgrymwyd pedair blynedd gan 9, awgrymwyd pum mlynedd gan bedwar ac awgrymodd tri y dylai fod ar hap.

Sylwadau

Dyma sampl o sylwadau disgyblion:

- Byddai cyfnod hwy na 6 blynedd yn rhy hir, rwy'n credu bod 4 blynedd yn well.
- Rwy'n credu y dylai'r ysgol gael ei harolygu ar hap.
- O fewn 6 blynedd, rwy'n credu, am fod llawer o bethau yn newid mewn ysgol o fewn amser byr.
- Bob pedair blynedd, rwy'n credu.
- Bob dwy flynedd am y gallan nhw weld bod ein hysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Casgliad – Roedd y mwyafrif o ymatebwyr o bob un o'r tri ymgyngoriad o'r farn mai cyfnod arolygu o 6 blynedd oedd yr opsiwn gorau, gyda rhai yn awgrymu hefyd y dylai'r system fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i ysgolion sy'n perfformio'n dda gael eu harolygu'n llai aml na'r rhai nad ydynt yn perfformio cystal.

Ymateb Llywodraeth Cymru – mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gofyniad i arolygu o fewn 6 blynedd i'r arolygiad diwethaf yn ei gwneud yn bosibl i ddarparwyr ragweld pryd y bydd eu harolygiad nesaf. Mae Llywodraeth Cymru o blaid lleihau natur ragweladwy arolygiadau o fewn y system bresennol. Er mwyn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid dileu'r gofyniad i gynnal arolygiad o fewn 6 blynedd i'r arolygiad

diwethaf, ac y dylai hyd pob cyfnod arolygu barhau'n 6 blynedd; ac y dylai cyfnod 6 blynedd newydd o arolygiadau ddechrau ar 1 Medi 2014.

Ymateb Estyn – Mae Estyn yn fodlon cadw cyfnod arolygu o 6 blynedd a dyddiad cychwyn y cyfnod 6 blynedd newydd. Byddai cyfnod arolygu hwy wedi rhyddhau adnoddau i roi cyfle i Estyn arolygu'n amlach ddarparwyr nad ydynt yn perfformio'n ddigon da.

Cynnig – Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid diwygio'r Rheoliadau cyfredol er mwyn dileu'r cyswllt rhwng arolygiadau blaenorol ac arfaethedig a'i gwneud yn ofynnol i bob darparwr addysg a hyfforddiant gael ei arolygu o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o chwe blynedd yn dechrau 1 Medi 2014.

C3. A ddylai Estyn barhau â'r cyfarfodydd rhieni/gofalwyr cyn arolygiad fel rhan o arolygiadau ysgolion?

Yr ymatebion i'r **ymgyngoriad cyhoeddus ar y cyd** oedd:

Cytuno	Anghytuno	Niwtral	Dim ymateb
55	36	29	11
42%	28%	22%	8%

Sylwadau

Dyma rai o sylwadau'r ymatebwyr:

Cytuno

Awgrymodd ymatebwyr a gytunodd y dylid cadw'r cyfarfod i rieni cyn yr arolygiad fod barn rhieni yn ddilys, y dylent gael cyfle i gyfarfod â'r arolygwyr a mynegi eu barn ar y cyd neu'n unigol. Awgrymwyd bod arolygwyr yn cael gwell syniad o naws yr ysgol a'r ymatebion wrth gyfarfod â rhieni wyneb yn wyneb, ystyriwyd bod holiaduron yn llai defnyddiol na chyfarfod. Nododd un ymatebydd fod llawer o'r rhieni (yn ei hysgol hi) yn anllythrennog ac y byddai colli'r cyfarfod hwn yn golygu na fyddai eu lleisiau yn cael eu clywed. Roedd y defnydd o'r cynorthwydd dwyieithog a oedd yn medru Somalieg yn y cyfarfod i rieni mewn arolygiad diweddar wedi sicrhau bod y gymuned hon yn gallu chwarae rhan lawn a gweithredol yn yr arolygiad. Ni fyddent fel arall wedi bod yn rhan o'r broses.

Anghytuno

Teimlai ymatebwyr nad oeddent o blaid cadw'r cyfarfod i rieni cyn arolygiad mai niferoedd bach sy'n dod i'r cyfarfodydd fel arfer a bod cyfranogiad yn wael. Pan ddaeth rhieni i'r cyfarfodydd, roedd presenoldeb llywodraethwyr ac athrawon a oedd hefyd yn rhieni yn eu hatal rhag mynegi barn, neu, nid oedd y sampl o rieni a oedd yn bresennol yn gynrychioliadol o'r holl rieni. Awgrymwyd bod rhieni, yn eithaf aml, yn dod i'r cyfarfod pan oeddent am godi problem ac nad oedd y rhieni hynny a oedd yn fodlon ar yr ysgol yn teimlo bod angen iddynt fod yn bresennol. O ganlyniad, gallai hyn arwain at farn gyffredinol wedi'i hystumio o'r ysgol. Awgrymwyd bod y sylwadau y mae rhieni yn eu gwneud yn gyfrinachol yn yr holiadur yn aml yn fwy gwerthfawr.

Sylwadau Ychwanegol

Teimlai ymatebwyr eraill fod dulliau eraill o gasglu gwybodaeth oddi wrth rieni (holiaduron) ond dylai fod ffordd fwy amlwg, agored a dienw i rieni godi unrhyw bryderon gydag Estyn hefyd. Awgrymodd un ymatebydd, pe bai ysgolion yn 'agored' gyda rhieni ac yn rhannu gwybodaeth a dyfarniadau gan Arweinwyr System, na ddylai fod angen cyfarfodydd cyn arolygiad.

Canfyddiad yr astudiaeth a gynhaliwyd gan yr **Uned Pobl a Gwaith** oedd bod dau o bob tri o'r rhai a gymerodd ran o'r farn y dylai Estyn gadw'r cyfarfod i rieni cyn arolygiad.

Sylwadau

Cytuno

Nododd y rhai a oedd o blaid cadw'r cyfarfod i rieni cyn arolygiad na fyddai rhai rhieni yn teimlo'n gyfforddus yn llenwi holiaduron ac felly y byddai angen cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac awgrymwyd bod angen hyrwyddo'r cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod mwy o rieni yn bresennol. Awgrymodd eraill fod y cyfarfodydd yn bwysig ond y dylid ystyried enwebu 'rhiant arweiniol' i siarad ar ran pobl. Teimlid na ddylai athrawon sy'n rhieni fod yn bresennol ac nad oedd angen rhoi pedair wythnos o rybudd, y byddai wythnos yn ddigon.

Anghytuno

Awgrymodd y rhai a nododd nad oedd angen y cyfarfodydd i rieni mai dim ond mathau penodol o rieni a ddaeth i'r cyfarfodydd ac felly nad oeddent yn gynrychioliadol. Teimlid nad oedd fawr o ddiben os mai dim ond niferoedd isel sy'n dod ac y dylai Estyn ystyried ffyrdd eraill o ymgysylltu ac ymgynghori â rhieni.

Yr ymatebion i'r **ymgyngoriad a oedd yn ystyriol o blant** oedd:

Cytuno	Anghytuno	Niwtral	Dim ymateb
101	28	62	14
49%	14%	30%	7%

Sylwadau

Dyma sampl o sylwadau disgyblion:

- Dwi ddim yn siŵr a ddylen nhw fod yn y cyfarfodydd.
- Cytuno, oherwydd dylai'r rhieni wybod sut mae pethau'n mynd yn yr ysgol.
- Cytuno oherwydd bydd ein rhieni yn gwybod beth sy'n digwydd yn ein hysgol.
- Cytuno, gall arolygwyr wrando ar fwy o safbwyntiau.
- Os bydd problemau bydd angen i rieni allu gofyn cwestiynau.

- Mae rhieni yn haeddu cael gwybod beth sy'n digwydd yn ysgol eu plentyn.

Casgliad – O'r rhai a fynegodd farn, cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr i bob un o'r tri ymgynghoriad y dylai Estyn gadw'r cyfarfod i rieni cyn yr arolygiad.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Mae Llywodraeth Cymru o blaid cadw'r cyfarfodydd i rieni ond mae'n croesawu barn Estyn ar y mater.

Ymateb Estyn – Mae'r wybodaeth arolygu a gaiff Estyn o holiaduron rhieni yn rhoi tystiolaeth bwysig wrth benderfynu ar drywydd yr arolygiad. Nid yw cyfarfodydd rhieni yn ychwanegu fawr ddim i'r wybodaeth sy'n dod o holiaduron rhieni. Mae presenoldeb rhieni yn aml yn eithaf isel ac mae rhai rhieni yn teimlo ei bod yn anodd bod yn agored ynglŷn â'u profiadau o'r ysgol am eu bod yn teimlo y bydd y rheini eraill neu athrawon neu riant-lywodraethwyr sydd â phlant yn yr un ysgol yn dweud wrth yr ysgol am unrhyw sylwadau beirniadol a wnânt.

Cynnig – Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid cadw'r cyfarfod i rieni cyn arolygiad. Noda'r rheoliadau cyfredol fod yn rhaid i ysgolion gymryd y cyfryw gamau ag sy'n rhesymol ymarferol i roi o leiaf dair wythnos o rybudd i rieni am amser a lleoliad y cyfarfod. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hon yn rhwystro Estyn rhag rhoi llai o rybudd bod arolygiad yn digwydd. Er y bydd y cyfarfod â rhieni cyn arolygiad yn parhau, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried diwygio'r Rheoliadau er mwyn lleihau a/neu ddileu'r cyfnod rhybudd o dair wythnos. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried dichonoldeb dileu'r gofyniad, yn y dyfodol, i drefnu i'r cyfarfod ddigwydd cyn i'r arolygiad ddechrau.

C4. A ddylai Estyn barhau â'i holiaduron i rieni/gofalwyr a dysgwyr?

Yr ymatebion i'r **ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd** oedd:

Cytuno	Anghytuno	Niwtral	Dim ymateb
83	19	20	9
63%	15%	15%	7%

Sylwadau

Dyma rai o sylwadau'r ymatebwyr:

Cytuno

Teimlai ymatebwyr a gytunodd y dylai Estyn gadw ei holiaduron ei hun i rieni a dysgwyr ei bod yn rhan bwysig o'r arolygiad. Roedd yn hollbwysig ceisio barn dysgwyr a rhieni. Roeddent o'r farn ei bod yn ychwanegiad pwysig i'r cyfarfod â rhieni a sgysiau â disgyblion (gan fod disgyblion yn aml yn codi materion nas crybwyllir yn adroddiad hunanwerthuso'r ysgol ar ymddygiad) ac efallai mai hon oedd yr unig wybodaeth a gaiff gan rieni os na allant ddod i'r cyfarfod â rhieni cyn yr arolygiad. Nododd ymatebwyr fod yr ymatebion yn yr holiaduron yn fwy gonest am eu bod yn gyfrinachol a bod y wybodaeth ynddynt yn amhrisiadwy fel tystiolaeth ac yn ddefnyddiol wrth benderfynu pa gwestiynau y dylid eu gofyn neu pa bethau y dylid arsylwi arnynt yn yr ysgol.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r holiaduron fod ar-lein fel y byddai'n haws cael gafael arnynt (fe'u cynigir ar ffurf electronig a phapur), y gallai rhai o'r cwestiynau i'r plant fod yn gliriach ac y gallai'r holiaduron gael eu cwblhau'n rheolaidd ar ddiwedd pob blwyddyn ysgol fel na fyddai angen eu cwblhau wedyn yn union cyn arolygiad.

Nododd rhai ymatebwyr fod y data cymaradwy sydd ar gael yn genedlaethol yn ddefnyddiol iawn a bod y dull gweithredu safonol yn sicrhau bod yr holiaduron yn ddilys yn ystadegol. Awgrymwyd y gellid datblygu'r holiaduron yn rhywbeth y gallai ysgolion ei ddefnyddio'n rheolaidd fel rhan o'u gwaith hunanwerthuso parhaus a dal i'w cymharu â meincnod cenedlaethol.

Dywedodd rhai ymatebwyr y byddent yn croesawu cael adborth ar ganlyniadau Holiaduron i Rieni a Dysgwyr, yn enwedig er mwyn gweld sut maent yn llywio canlyniad yr arolygiad (efallai nad yw ymatebwyr yn ymwybodol o hyn, ond mae Atodiad 2 i adroddiadau arolygiadau yn crynhoi ymatebion i'r holiaduron i rieni a disgyblion).

Awgrymodd un ymatebydd fod angen i ysgolion gael eu darbwylo i beidio ag anfon holiadur Estyn cyn arolygiad er gwybodaeth iddynt hwy, gan fod hyn yn aml yn drysu rhieni ac yn ei gwneud yn llai tebygol y byddant yn cwblhau'r holiadur swyddogol cyn arolygiad.

Anghytuno

Awgrymodd ymatebwyr a anghytunodd y dylai Estyn ofyn i ysgolion/awdurdodau goladu eu data eu hunain ynglŷn â lles addysgol disgyblion gan y dylent fod yn dangos eu gallu eu hunain i werthuso barn rhieni a dysgwyr drwy'r amser. Awgrymodd un ymatebydd mai anaml y mae'r holiaduron yn cynnig sylwadau defnyddiol ac nad ydynt yn cael fawr ddim effaith ar y broses arolygu na'r canlyniadau a bod cyfarfodydd â rhieni a thrafodaethau gyda dysgwyr yn fwy buddiol.

Nododd ymatebwyr o golegau AB fod AdAS yn cynnal arolwg blynyddol "Llais y Dysgwr" ym mhob sefydliad ôl-16 ac awgrymwyd y dylai hyn roi'r wybodaeth i Estyn sydd ei hangen arno cyn arolygiad, wedi'i meincnodi â phob sefydliad yn y sector. Awgrymwyd, pan fydd sefydliadau yn cynnal eu harolygon eu hunain o Ganfyddiadau Myfyrwyr o Gyrsiau, arolwg Llais y Dysgwr AdAS ac arolwg Estyn, fod perygl bod dysgwyr yn diflasu ar ateb cwestiynau a bod gormod o holiaduron tebyg mewn cyfnod byr o amser. Hefyd, os mai'r bwriad oedd rhoi llai o rybudd am arolygiadau, roedd y broses o drefnu arolygon yn un feichus pan oedd tystiolaeth eisoes ar gael. Fodd bynnag, cydnabuwyd, mewn sectorau eraill megis ysgolion, na fyddent o bosibl yn cael yr un lefel o adborth gan ddysgwyr a rhanddeiliaid. Yn yr achosion hyn, mae'n ddigon posibl y byddai Estyn yn gweld bod angen holiadur ar wahân.

Sylwadau Ychwanegol

Nododd rhai ymatebwyr y dylai'r fframwaith gynnwys gofyniad ar ysgolion i gynnal eu holiaduron eu hunain i rieni a dysgwyr a dadansoddi'r canlyniadau mewn ffordd safonol.

Ymhlith y sylwadau eraill nodwyd bod angen i holiaduron i ddysgwyr fod yn fwy dwys er mwyn cael mwy o effaith ac yn fwy arbenigol ar gyfer grwpiau unigol er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch. Nododd un ymatebydd bryder ynglŷn â'r holiadur i rieni, gan awgrymu mai dim ond os oedd ymateb negyddol y byddai'n cael ei gwblhau ac felly nad oedd bob amser yn adlewyrchiad cywir.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai Estyn ystyried ceisio barn athrawon yn yr ysgol ynglŷn â nifer o faterion megis cymorth gan rieni/gofalwyr, lles y staff ac arweinyddiaeth a rheoli yn yr ysgol. Gall gynnig gwybodaeth ddiddorol iawn i Estyn er mwyn helpu ysgolion.

Canfyddiad yr astudiaeth a gynhaliwyd gan yr **Uned Pobl a Gwaith** oedd bod mwyafrif helaeth o'r rhai a gymerodd ran o'r farn y dylai Estyn gadw'r holiaduron.

Sylwadau

Cytuno

Awgrymodd y rhai a gytunodd y dylid cadw'r holiaduron fod perygl y gallai holiaduron a weinyddir gan ysgolion ddangos tuedd, bod holiaduron Estyn yn cynnig fformat safonol, eu bod yn bwysig ond bod angen symleiddio'r iaith a bod angen rhoi mwy o 'bwys' arnynt yn y dadansoddiad ei hun ac yn ystod y cam adrodd.

Anghytuno

Awgrymodd y rhai a anghytunodd nad oedd hynny'n cyd-fynd â rhoi dim rhybudd neu ychydig o rybudd am arolygiad, y gallai Estyn ddefnyddio holiaduron ysgolion, ei bod yn anodd cael data da o holiaduron, y dylai ysgolion gynnal yr holiaduron ond y dylai Estyn roi cymorth gweinyddol a bod llawer o'r cwestiynau yn rhai caeedig nad oeddent yn caniatáu amrywiaeth eang o opsiynau.

Yr ymatebion i'r **ymgyngoriad a oedd yn ystyriol o blant** oedd:

Cytuno	Anghytuno	Niwtral	Dim ymateb
101	16	67	12
52%	8%	34%	6%

Sylwadau

Dyma sampl o sylwadau disgyblion:

- Cytuno, oherwydd ni fyddai rhai plant am ddweud eu barn o flaen eraill.
- Cytuno, oherwydd byddai'r llywodraeth yn gwybod wedyn.
- Cytuno, oherwydd ni allan nhw dwyllo wedyn.
- Cytuno, er mwyn gweld a ydyn nhw'n dda.
- Cytuno, dylid eu cadw.

- Na, rwy'n credu y dylen nhw ond gofyn y cwestiynau.

Casgliad – cytunodd y mwyafrif o bob un o'r tri ymgynghoriad y dylai Estyn gadw holiaduron i rieni a dysgwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru – er ei bod yn cymryd amser i ddsbarthu'r holiaduron mae'n amlwg o'r sylwadau a ddaeth i law bod yr holiaduron yn cael eu hystyried yn rhan bwysig a gwerthfawr o'r broses arolygu. Cânt eu hystyried yn bwysig yn benodol er mwyn rhoi cyfle i gasglu safbwyntiau cyfrinachol gan rieni a dysgwyr ynglŷn â darparwyr addysg. Maent hefyd yn fodd i Estyn feincnodi ymatebion ac yn cynnig meincnod i farnu'r ymatebion hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol i ddarparwyr gynnal eu holiaduron eu hunain i rieni a dysgwyr at ddibenion hunanwerthuso (mae Llais y Dysgwyr ym maes addysg ôl-16 yn gyfrwng i wneud hynny) ond nid yw'n teimlo bod angen cyflwyno gofyniad ar ysgolion i wneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylid cadw'r holiaduron.

Ymateb Estyn – Mae Estyn yn cytuno â'r mwyafrif o ymatebwyr sy'n teimlo ei bod yn briodol i Estyn gadw ei holiaduron ei hun i rieni a dysgwyr.

Cynnig – Mae Estyn yn bwriadu cadw'r holiaduron.

C5. A ddylid lleihau'r cyfnod rhybudd ar gyfer arolygiad o'r 20 diwrnod gwaith a geir ar hyn o bryd? Os felly, faint o rybudd ddylid ei roi?

Yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd oedd:

20 dg	15 dg	10 dg	5 dg	3-4 dg	1-2 dg	dim	Dim ymateb
65	5	16	14	5	7	8	10
50%	4%	12%	11%	4%	5%	6%	8%

Sylwadau

Dyma rai o sylwadau'r ymatebwyr:

20 diwrnod gwaith fel sy'n digwydd ar hyn o bryd

Awgrymodd ymatebwyr a deimlai y dylid cadw'r cyfnod rhybudd presennol o 20 diwrnod ei fod yn cynnig cyfnod priodol fwy neu lai gan fod llawer o waith paratoi i'w wneud a bod angen llawer o ddata cyn arolygiad. Roedd hyn yn rhoi amser i gyfathrebu â rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr. Awgrymwyd y gallai llai o ddiwrnodau effeithio ar ansawdd y data/faint o ddata a gasglwyd ac achosi mwy o straen i staff yn ystod y cyfnod arolygu.

Awgrymodd un ymatebydd fod y cyfnod hwn yn rhoi cyfle i drafod amlinelliad o'r rhaglen arolygu gyda'r arolygydd cofnodol, er mwyn rhoi gwybodaeth megis adroddiad hunanwerthuso diweddar a chynllun gwella a manylion am amserlen y cyfnod arolygu. Roedd hefyd yn rhoi cyfle i ysgolion wella eu harferion cyn i'r arolygiad ddigwydd.

15 diwrnod gwaith

Awgrymodd ymatebydd a deimlai y gellid lleihau'r cyfnod rhybudd i 15 diwrnod gwaith y byddai'n rhoi amser i drefnu cyfarfod â rhieni. Fodd bynnag, mae'r cyfnod rhybudd ar gyfer arolygiad yn mynd yn llai pwysig os bydd y cylch chwe blynedd o arolygiadau yn parhau.

10 diwrnod gwaith

Awgrymodd ymatebwyr a deimlai y gellid lleihau'r cyfnod rhybudd i 10 diwrnod gwaith fod hyn yn rhoi digon o amser i sicrhau bod y trefniadau priodol ar waith, bod modd cyfrif am weithgareddau arfaethedig megis HMS staff a theithiau ysgol a'i fod yn rhoi digon o amser i'r darparwr baratoi ar gyfer yr arolygiad. Awgrymodd ymatebwyr y dylid cynnal prawf peilot o'r defnydd o gyfnod rhybudd o 10 ddiwrnod cyn gwneud penderfyniad terfynol a phe bai'r cyfnod rhybudd yn cael ei leihau, y byddai'n rhaid i ddisgwyliadau Estyn newid.

Awgrymodd un ymatebydd, er bod lle i leihau'r cyfnod rhybudd i 10 diwrnod gwaith, y byddai angen digon o amser i'r ysgol wneud trefniadau priodol i ddarparu ar gyfer yr arolygiad yn ddiogel, y byddai goblygiadau o ran dychwelyd holiaduron i rieni a sylwadau gan yr ALI cyn yr arolygiad, ond y byddai'n atgyfnerthu'r angen i ysgolion fod yn effeithiol ac yn "barod ar gyfer arolygiad" ar unrhyw adeg.

5 diwrnod gwaith

Awgrymodd ymatebwyr a deimlai y dylid lleihau'r cyfnod rhybudd i 5 diwrnod gwaith y dylai cyfnodau rhybudd fod yn llai rhagweladwy ac y dylai ysgolion gael eu harolygu yn seiliedig ar y ffordd y maent yn gweithredu fel arfer o ddydd i ddydd. Awgrymwyd y byddai'r amserlen hon yn rhoi cyfle i staff addysgu baratoi gwersi yn drwyadl ar gyfer yr wythnos ddilynol, pe bai mwy o rybudd y byddai timau arweinyddiaeth yn rhoi pwysau ar staff i gasglu tystiolaeth ac na ddylai ysgolion baratoi'n ddwys ar gyfer arolygiad.

Er bod ymatebwyr o blaid symud i gyfnod rhybudd byrrach, awgrymwyd bod angen i'r cyfnod rhybudd ystyried faint o amser y mae proses yr holiadur yn ei gymryd a'r her ymarferol a wynebwr gan gonsortia mawr a hefyd ddarparwyr sy'n gweithredu ar sawl safle ac sydd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol.

3-4 diwrnod gwaith

Nododd ymatebydd a deimlai y dylid lleihau'r cyfnod rhybudd i 3-4 diwrnod gwaith y dylai arddangosfeydd yn yr ystafell ddogarth gael eu gweld fel y maent fel arfer, ac y dylai dogfennaeth gael ei gweld fel y mae bob amser. Dylai adroddiad hunanwerthuso fod yn waith ar droed bob amser, ac yn cael ei ddiweddarw wrth i newidiadau ddigwydd. Teimlai ymatebydd arall nad oedd yr amserlen hon yn rhoi digon i rybudd i aelodau allweddol o staff fod ar gael.

1-2 diwrnod gwaith

Awgrymodd ymatebydd fod hysbysu ysgol y diwrnod cynt yn rhoi digon o amser i sicrhau bod y pennaeth yn yr ysgol ac ar gael i'w arolygu. Awgrymodd ymatebydd arall y gallai fod modd defnyddio gwahanol fodelau ar gyfer

gwahanol ddarparwyr yn dibynnu ar asesiadau risg y darparwyr hynny ynghyd ag arolygiadau dirybudd weithiau.

Dim

Nododd ymatebydd, os ydym yn edrych ar ddisgyblion a rhieni fel cwsmeriaid, fod yn rhaid i ni geisio sicrhau bod arolygwyr yn cael cipolwg, hyd y gellir, ar yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd o ddydd i ddydd. Teimlai rhai pobl fod dim rhybudd yn rhy anodd oherwydd efallai na fyddai arweinwyr yn yr ysgol. Fodd bynnag, os yw sefydliad wedi'i arwain yn dda, mae'r drefn yn parhau p'un a yw'r penaethiaid yn bresennol ai peidio. Er bod ymatebydd arall yn cytuno â hyn, teimlai nad oedd yn ymarferol.

Sylwadau ychwanegol

Awgrymodd ymatebwyr amserlenni gwahanol. Awgrymodd un rybudd o saith diwrnod ar y mwyaf, ond awgrymodd un arall y byddai dau dymor yn well er mwyn ystyried teithiau a digwyddiadau.

Awgrymodd un ymatebydd y gellid lleihau'r cyfnod rhybudd ond y byddai angen newidiadau sylweddol i'r fethodoleg arolygu (gan gynnwys defnyddio arolygwyr sy'n gymheiriaid).

Roedd ymatebydd arall yn croesawu lleihau'r cyfnod rhybudd cyfredol ac awgrymodd y gellid lliniaru effaith lleihau'r cyfnod rhybudd ar rai agweddau ar y trefniadau arolygu presennol drwy asesiadau parhaus a gwell ymgysylltu â rhieni/gofalwyr. Byddai lleihau'r cyfnod rhybudd yn lleihau'r straen ar athrawon ac yn cynnig y darlun mwyaf cywir o'r safonau addysg a ddarperir gan ddarparwr. Mae'r cyfnod rhybudd cyfredol yn ystumio'r darlun, gydag ysgolion yn mynd ati i greu ymyriadau byrdymor na fyddant o reidrwydd yn arwain at y gwelliannau angenrheidiol yn yr hirdymor. Yn lle hynny, dylid annog ysgolion i ddefnyddio data, a gesglir drwy asesiadau ffurfiannol ac arolygon, er mwyn monitro eu cynnydd yn y tymor hwy. Bydd hyn yn galluogi ysgolion i wneud ymyriadau sy'n fwy effeithiol a chynaliadwy.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid ystyried cyd-destun pob sector wrth benderfynu faint o rybudd y dylid ei roi ac mae'n cyfeirio at Ofsted nad yw wedi mabwysiadu 'un ateb i bawb' i bob sector gan fod cydnabyddiaeth y gallai fod yn briodol rhoi ychydig mwy o amser mewn rhai sectorau er mwyn adlewyrchu'r heriau a wynebwr gan gonsortia a sefydliadau mwy o faint o'u cymharu â darparwyr llawer llai.

Cymysg fu canlyniadau'r astudiaeth a gynhaliwyd gan yr **Uned Pobl a Gwaith**. Teimlai tua thri chwarter y rhai a gymerodd ran y dylid lleihau'r cyfnod rhybudd (gyda'r mwyafrif o blaid arolygiadau dirybudd) ond teimlai'r chwarter arall na ddylid newid y drefn.

Sylwadau

20 diwrnod gwaith fel sy'n digwydd ar hyn o bryd

Awgrymodd y rhai a deimlai na ddylid newid y cyfnod rhybudd cyfredol o 20 diwrnod ei bod yn dibynnu i raddau helaeth ar faint o ddeunydd a gwaith

paratoi yr oedd Estyn yn gofyn i ysgol ymgymryd ag ef cyn arolygiad, ei bod yn cymryd amser i baratoi ar gyfer arolygiadau a bod problemau ymarferol yn codi o ran lleihau'r amserlen, er enghraifft, ni fyddai disgyblion ar deithiau yn gallu cyfrannu.

10-19 diwrnod gwaith

Awgrymodd y nifer fach a deimlai y dylid lleihau'r cyfnod rhybudd i rhwng 10-19 diwrnod gwaith fod angen i Estyn gael ychydig o amser i gasglu gwybodaeth ymlaen llaw, pe bai ysgolion wedi rhoi'r prosesau cywir ar waith a phe bai athrawon yn gwneud eu gwaith yn iawn, na fyddai angen llawer o amser i baratoi.

5-9 diwrnod gwaith

Awgrymodd y nifer fach a deimlai y dylid lleihau'r cyfnod rhybudd i rhwng 5-9 diwrnod y dylai arolygiadau weld yr ysgol fel y mae fel arfer, bod angen rhoi rhywfaint o rybudd fel y gallai llywodraethwyr gyfrannu a phe bai ysgolion wedi rhoi'r prosesau cywir ar waith nad oedd angen cymaint o amser â hynny arnynt.

1-4 diwrnod gwaith

Awgrymodd y nifer fach a deimlai y dylid lleihau'r cyfnod rhybudd i rhwng 1-4 diwrnod gwaith ei bod yn well cael ymweliad arolygu rheolaidd, llai manwl a chasglu gwybodaeth ar ôl yr ymweliad.

Dim rhybudd

Teimlai'r rhai a oedd o blaid dim rhybudd ei bod yn dangos y sefyllfa fel y mae, bod arolygiadau Estyn yn disgwyl 'sioe', bod angen i Estyn fod yn fwy realistig, ei fod yn rhoi llai o bwysau ar athrawon, bod digwyddiadau fel cyngherddau wedi cael eu canslo o ganlyniad i arolygiadau a bod gan arolygiadau y potensial i wella gwaith monitro a gwerthuso parhaus.

Sylwadau ychwanegol

Nododd rhai fod angen cynnal ymweliadau arolygu ar wahân – er mwyn gweld sut mae ysgol yn addysgu ac er mwyn arolygu data a strwythurau. Teimlid bod angen i ddiben ymweliad arolygu fod yn glir a bod angen datblygu'r drefn i gyflawni'r dibenion hynny.

Yr ymatebion i'r **ymgyngoriad a oedd yn ystyriol o blant** oedd:

20 dg	15 dg	10 dg	5 dg	3-4 dg	1-2 dg	dim	arall	Dim ymateb
28	18	24	12	8	8	20	8	12
20%	13%	17%	9%	6%	6%	14%	6%	9%

Sylwadau:

Dyma sampl o sylwadau disgyblion:

- Arolygiadau ar hap fel na all neb baratoi na theimlo o dan straen.
- 1 neu 2 ddiwrnod oherwydd wedyn fyddan nhw ddim yn gorbaratoi.

- Cadwch 20 felly gallen ni gael amser i roi trefn ar bethau.
- 10 diwrnod – er mwyn iddyn nhw gael tipyn o amser.
- 10 diwrnod – bydd llai o amser i deimlo o dan straen
- 10 diwrnod – oherwydd rwy'n credu y dylen nhw gael ychydig o rybudd ond nid gormod.
- Dim rhybudd – mae angen i bobl Estyn weld yr ysgol fel y mae ond bydd yr athrawon yn ei gwneud yn well.
- Dim rhybudd – oherwydd gallan nhw eu gweld fel y maen nhw o ddydd i ddydd.

Casgliad – Mae'r mwyafrif o ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus electronig a lanswyd gan Lywodraeth Cymru o'r farn bod y cyfnod rhybudd cyfredol yn ddigonol. Cymysg fu'r ymatebion i'r ddau ymgynghoriad arall.

Ymateb Llywodraeth Cymru – mae nifer o faterion yn codi ynglŷn â newid y cyfnod rhybudd. Os caiff y trefniadau cyfredol ar gyfer rhoi gwybod am y cyfarfod i rieni cyn arolygiad eu cadw ni fydd yn ymarferol lleihau'r cyfnod rhybudd. Os ceir gwared ar natur ragweladwy arolygiadau, nid yw 20 diwrnod gwaith yn rhy hir i ddarparwr orbaratoi ar gyfer arolygiad. Caiff Llywodraeth Cymru ei llywio gan farn Estyn am werth cyfarfodydd i rieni cyn arolygiad a hefyd ymarferoldeb gweithredu cyfnod rhybudd byrrach. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu barn Estyn ar y mater.

Ymateb Estyn – Mae Estyn yn cydnabod, drwy leihau natur ragweladwy arolygiadau, fod cwtogi ar y cyfnod rhybudd yn mynd yn llai o flaenoriaeth. Nid yw'r cyfnod rhybudd ar gyfer arolygiadau wedi'i bennu mewn deddfwriaeth na rheoliad. Mae'n debygol y bydd Estyn yn treialu cyfnod rhybudd byrrach.

Cynnig – Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried diwygio'r Rheoliadau cyfredol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion roi tair wythnos o rybudd am y cyfarfod i rieni cyn arolygiad; bydd hynny yn dylanwadu ar benderfyniad Estyn i leihau ei gyfnod rhybudd am arolygiad ai peidio.

C6. A ddylid lleihau'r amserlen ar gyfer paratoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad, o gymharu â'r trefniadau presennol ar gyfer y sector ysgolion?

Yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd oedd:

Cytuno	Anghytuno	Niwtral	Dim ymateb
39	35	45	12
30%	27%	34%	9%

Sylwadau

Dyma rai o sylwadau'r ymatebwyr:

Cytuno

Nododd ymatebwyr a gytunodd y dylid lleihau'r amserlen fod angen ymdrin â materion yn gyflym, po hwyaf y bydd ysgol yn ei gymryd i baratoi adroddiad y mwyaf o amser y bydd yn ei gymryd i wneud gwelliannau. Os yw gwella ysgol yn ymwneud â newid yn gyflym, yna byddai lleihau'r amserlen yn pwysleisio pwysigrwydd hynny. Awgrymwyd y dylid lleihau'r amserlen i'r ysgolion hynny sydd o dan fesurau arbennig.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai uwch staff a llywodraethwyr fod yn gallu paratoi cynllun digon manwl o fewn pedair wythnos. Nododd un arall fod ysgolion yn gwbl ymwybodol o'r argymhellion sy'n deillio o arolygiad yn yr adborth llafar felly maent yn cael digon o amser i lunio cynllun gweithredu tra'n aros i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.

Anghytuno

Teimlai ymatebwyr a anghytunodd y dylai ysgolion gael digon o amser i ystyried canfyddiadau'r arolygiad, na ddylid rhuthro i baratoi cynllun ôl-arolygiad, bod angen amser i asesu'r canlyniadau a chynllunio'n ofalus er mwyn mynd i'r afael â hwy. Byddai lleihau'r amserlen yn ychwanegu mwy o bwysau a gallai arwain at gynlluniau eilradd yn cael eu llunio a'u cyflwyno. Efallai y bydd angen i ysgolion bennu ffocws newydd ac y gall hyn gynnwys hyfforddiant. Byddai lleihau'r amserlen yn ychwanegu mwy o bwysau.

Awgrymodd eraill mai'r Arolygwyr ddylai bennu'r amserlen o bosibl ac y byddai'n dibynnu ar ba bryd yn ystod y flwyddyn academaidd yr arolygwyd yr ysgol – byddai ysgol yn gallu ymateb yn gynt wrth gynllunio blwyddyn academaidd newydd.

Awgrymodd ymatebydd y dylid rhoi diwrnod HMS ychwanegol i ysgol a arolygwyd er mwyn rhoi cyfle i'r staff drafod syniadau ynghylch sut y dylid mynd i'r afael â'r materion a symud yr ysgol yn ei blaen. Awgrymodd un arall ei bod yn bwysig bod sefydliadau, yn enwedig y rhai sy'n achos pryder, yn cael cyfle i gynllunio'n ofalus, gan gynnwys cyfarfod â llywodraethwyr ac ystyried newidiadau mewn arweinyddiaeth ac ymyriadau o bosibl.

Sylwadau Ychwanegol

Nododd ymatebwyr eraill y byddent yn amharod i ruthro i baratoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad, gan eu bod yn deall pwysigrwydd y ddogfen honno. Roedd amserlenni yn dibynnu ar ganlyniad yr arolygiad. Bydd angen i ysgolion a roddir mewn categori gael mwy o amser na'r rhai sy'n cael adroddiad da neu ardderchog.

Canfyddiad yr astudiaeth a gynhaliwyd gan yr **Uned Pobl a Gwaith** oedd bod y mwyafrif o'r rhai a gymerodd ran yn teimlo na ddylid newid yr amser paratoi ar gyfer cynllun gweithredu ôl-arolygiad.

Sylwadau

Cytuno

Nododd y nifer fach a gytunodd y dylid lleihau'r amserlen nad oedd angen llawer o amser os oedd ysgolion wedi rhoi'r prosesau cywir ar waith a bod yr amserlen bresennol yn rhy hir.

Anghytuno

Nododd y rhai a anghytunodd y dylid lleihau'r amserlen ei bod yn bwysig bod pobl yn cael amser i sicrhau bod y cynllun yn iawn, ei bod yn cymryd amser i ddwyn ynghyd yr holl randdeiliaid perthnasol er mwyn cytuno ar y cynllun, bod yr amser yr oedd ei angen yn dibynnu ar natur a nifer y pwyntiau a godwyd gan Estyn a bod angen hyblygrwydd felly ac mai dim ond hyn a hyn o amser sydd gan lywodraethwyr i gyfrannu.

Yr ymatebion i'r **ymgyngoriad a oedd yn ystyriol o blant** oedd:

Cytuno	Anghytuno	Niwtral	Dim ymateb
73	29	80	14
37%	15%	41%	7%

Sylwadau

Dyma sampl o sylwadau disgyblion:

Cytuno

- Yn lle 80 diwrnod, dylai fod yn llai e.e. 25-40 diwrnod.
- Gwnewch hi'n llai.
- Mae'n cymryd tua thri mis a gallai'r broblem waethygu o bosibl.
- Fel y gall ysgolion wella'n gynt.
- Dylid ei lleihau o 80 diwrnod i fis.
- Rwy'n credu ei bod yn rhy hir.

Anghytuno

- Po hwyaf y bydd yn ei gymryd gorau y bydd.
- Oherwydd mae'n iawn.

Sylwadau Ychwanegol

- Dwi ddim yn gwybod beth sy'n digwydd ar yr ochr yna ond mae'r drefn bresennol yn ymddangos yn iawn i mi.

Casgliad – Cymysg iawn fu'r ymatebion. Yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, cytunodd 30% o ymatebwyr y dylid lleihau'r amserlen, anghytunodd 27% ac roedd 43% yn niwtral neu ddim wedi ymateb, ond yn yr ymgynghoriad a oedd yn ystyriol o blant, cytunodd 37%, roedd 48% yn niwtral neu ddim wedi ymateb. Fodd bynnag, teimlai'r mwyafrif o'r rhai a gymerodd ran yn arolwg yr Uned Pobl a Gwaith na ddylid newid yr amser paratoi ar gyfer cynllun gweithredu ôl-arolygiad.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Nid oes barn glir ynghylch a oes modd cyfiawnhau lleihau'r amserlen ar gyfer paratoi cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad. Y ddadl dros leihau'r amserlen yw cam fod aelod o staff y darparwyr yn aelod enwebedig yn ystod yr arolygiad ac yn cymryd rhan yn y broses y bydd yn cael darlun clir o'r materion sy'n codi. Bydd yr aelod enwebedig ac eraill o dîm rheoli'r darparwr hefyd yn mynd i sesiynau adborth ar ôl yr arolygiad lle rhoddir asesiadau dros dro. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r ysgol neu'r darparwr gynllunio'r camau gweithredu i'w cymryd i fynd i'r afael â'r asesiadau a wnaed yn union ar ôl yr arolygiad a chyn cyhoeddi adroddiad yr arolygiad. O ran ysgolion sy'n perfformio'n wael, dylid cymryd camau yn gyflym ac yn drwyadl yn union ar ôl arolygiad.

Mae Llywodraeth Cymru o blaid lleihau'r amserlen ar gyfer paratoi cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad. Er na fyddai Llywodraeth Cymru am i'r cyfnod a bennir gosbi unrhyw ysgol, mae o'r farn y bydd lleihau'r amserlen yn galluogi'r ysgol i gymryd camau gweithredu ar y cyfle cyntaf posibl. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod lleihau'r amserlen i 20 diwrnod gwaith yn ddigon.

Ymateb Estyn – Nid oes gan Estyn farn gref ynglŷn â'r cwestiwn hwn ond mae'n fodlon lleihau'r amserlen ar gyfer paratoi cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad i ddarparwyr.

Cynnig – Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid diwygio'r Rheoliadau cyfredol er mwyn lleihau'r amserlen ar gyfer paratoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad i 20 diwrnod gwaith.

C7. A ddylid cyflwyno cyfnod o amser sy'n gyson i'r holl sectorau addysg o ran paratoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad?

Yr ymatebion i'r **ymgyngoriad cyhoeddus ar y cyd** oedd:

Cytuno	Anghytuno	Niwtral	Dim ymateb
82	8	30	11
63%	6%	23%	8%

Sylwadau

Dyma rai o sylwadau'r ymatebwyr:

Cytuno

Ni nodwyd unrhyw sylwadau gan y rhan fwyaf o ymatebwyr a gytunodd. Fodd bynnag, teimlai'r rhai a wnaeth sylwadau fod cysondeb yn bwysig, y dylid trin pob sector yr un fath a gweithio yn ôl yr un amserlen gan mai Fframwaith Arolygu Cyffredin ydyw. Awgrymwyd bod yn rhaid i'r drefn arolygu fod yn dryloyw ac yn deg neu fel arall y byddai'r proffesiwn yn colli ffydd ac yn methu ag ymddiried yn y tîm arolygu.

Anghytuno

Awgrymodd yr ymatebwyr a anghytunodd y gall argymhellion arolygiadau ysgolion amrywio'n fawr ac felly fod angen amserlenni gwahanol ar gyfer paratoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Efallai y byddai angen mwy o amser

ar ysgolion â “phroblemau” a byddai angen mwy o amser ar ysgol uwchradd fawr nag ysgol gynradd fach i adolygu’r argymhellion, casglu syniadau a llunio eu cynllun gweithredu.

Canfyddiad yr astudiaeth a gynhaliwyd gan yr **Uned Pobl a Gwaith** oedd nad oedd bron hanner y rhai a gymerodd ran yn siŵr a ddylid cyflwyno cyfnod o amser sy’n gyson i’r holl sectorau addysg o ran paratoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Fodd bynnag, cytunodd dros chwarter y dylai’r cyfnod fod yn gyson.

Sylwadau

Cytuno

Awgrymodd y rhai a deimlai y dylai’r cyfnod fod yn gyson ei bod yn gwneud synnwyr bod darparwyr addysg yn cael eu trin mewn ffordd safonol, bod gwahaniaethau yn gorgymhlethu systemau ac y byddai’n helpu i hyrwyddo prosesau monitro a gwerthuso o safon debyg ym mhob sector, sef rhywbeth nad yw’n digwydd ar hyn o bryd.

Anghytuno

Nododd y rhai a deimlai nad oedd yn rhaid i’r cyfnod ar gyfer paratoi cynllun arolygu ôl-arolygiad fod yn gyson i bob darparwr fod sectorau yn wahanol ac yn wynebu problemau gwahanol ac felly na ellid eu trin yr un fath.

Yr ymatebion i’r **ymgyngoriad a oedd yn ystyriol o blant** oedd:

Cytuno	Anghytuno	Niwtral	Dim ymateb
108	25	47	16
55%	13%	24%	8%

Sylwadau

Dyma sampl o sylwadau disgyblion:

- Dyw’r ffaith eu bod yn hŷn ddim yn golygu y dylen nhw gael mwy o amser.
- Dylai pawb gael yr un amser.
- Dylai pawb gael yr un amser.
- Oherwydd byddai’n deg wedyn.

Casgliad – Cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr i’r ymgynghoriad cyhoeddus electronig a lanswyd gan Lywodraeth Cymru a thros hanner (55%) yr ymatebwyr i’r ymgynghoriad a oedd yn ystyriol o blant y dylai’r cyfnod ar gyfer paratoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad fod yn gyson i bob sector addysg. Fodd bynnag, dim ond ychydig dros chwarter y rhai a gymerodd ran yn arolwg yr Uned Pobl a Gwaith a gytunodd ac ni fynegwyd barn y naill ffordd neu’r llall gan bron hanner.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Nid oes unrhyw reswm pam na all pob sector fod yn gyson. Ymddengys bod dadl gref o blaid trin sectorau yn yr un ffordd.

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylid cyflwyno cyfnod o amser sy'n gyson i'r holl sectorau addysg o ran paratoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad.

Ymateb Estyn – Nid oes gan Estyn farn gref ynglŷn â'r cwestiwn hwn ond mae o blaid cysondeb ar y cyfan.

Cynnig – Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o weithredu o ran y mater hwn.

C8. Beth yw'r cyfnod o amser mwyaf priodol i'r holl ddarparwyr baratoi eu cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad?

Yr ymatebion i'r **ymgyngoriad cyhoeddus ar y cyd** oedd:

45 dg (dim newid)	15 dg	10-2 dg	5 dg	arall	Dim ymateb
60	34	10	5	7	15
46%	26%	8%	4%	5%	11%

Awgrymodd rhai ymatebwyr amserlenni eraill, awgrymwyd 20 diwrnod gwaith gan un, awgrymwyd 20-25 diwrnod gwaith gan un, awgrymwyd 20-30 diwrnod gwaith gan un, awgrymwyd 30 diwrnod gwaith gan dri ac awgrymwyd un tymor gan un.

Sylwadau

Ni roddwyd llawer o sylwadau ond o'r rhai a wnaeth sylwadau, y prif awgrym oedd y dylai'r amserlen amrywio, yn ôl canlyniad yr arolygiad. Mae'n debygol y bydd angen cymorth awdurdod lleol/swyddogion consortiwm ar ysgolion y mae angen iddynt wneud gwelliant sylweddol neu fod o dan fesurau arbennig

Canfyddiad yr astudiaeth a gynhaliwyd gan yr **Uned Pobl a Gwaith** oedd bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo na ddylid newid yr amserlen (45 diwrnod gwaith) ar gyfer paratoi cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad.

Sylwadau

Dim newid-45 diwrnod

Nododd y rhai a deimlai na ddylid newid y cyfnod presennol ei bod yn cymryd amser i lunio cynllun gweithredu da, ei bod yn cymryd amser i randdeiliaid ddod i gytundeb ac mai dim ond hyn a hyn o amser oedd gan lywodraethwyr (i gymryd rhan) am fod llawer mewn cyflogaeth ac yn gwirfoddoli o'u hamser eu hunain.

Lleihau naill ai i rhwng 15-25 diwrnod neu 5-14 diwrnod

Awgrymodd y nifer fach a deimlai y dylid lleihau'r cyfnod presennol ar gyfer paratoi cynlluniau gweithredu naill i 15-25 diwrnod neu 5-14 diwrnod fod angen gweithredu'n gynt unwaith bod problemau wedi'u nodi, bod y camau gweithredu yn bwysicach na'r cynllun ac y gallai cyfnod estynedig o gynllunio gael effaith negyddol ar forâl ysgol.

Yr ymatebion i'r **ymgyngoriad a oedd yn ystyriol o blant** oedd:

45 dg (dim newid)	15 dg	10 dg	5 dg	arall	Dim ymateb
84	43	11	8	28	16
44%	23%	6%	4%	15%	8%

Sylwadau:

Dyma sampl o sylwadau disgyblion:

- Mae 45 diwrnod yn ymddangos yn iawn. (Canolbarth Cymru)
- 30 diwrnod. (De Cymru)
- 35 diwrnod. (De Cymru)
- Rwy'n credu y dylid ei leihau i 20 diwrnod. (De Cymru)
- Ni ddylai fod mor hir â hynny, yn fy marn i. (De Cymru)
- Rwy'n credu y dylid rhoi cyn lleied o rybudd â phosibl. (Canolbarth Cymru)
- Cadwch at 45 diwrnod. (Gogledd Cymru)

Casgliad – yn gyffredinol awgrymodd y mwyafrif o ymatebwyr i bob un o'r tri ymgyngoriad mai'r cyfnod presennol (45 diwrnod gwaith) oedd y cyfnod mwyaf priodol o amser i ddarparwyr baratoi eu cynlluniau gweithredu ôl-aroelygiad.

Ymateb Llywodraeth Cymru – mae hyn yn anghyson â'r ymatebion i gwestiwn 6 lle cafwyd ymatebion cymysg iawn. Gweler ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiwn 6, sy'n amlinellu'r ddadl o blaid lleihau'r amserlen. Mae Llywodraeth Cymru o blaid lleihau'r amserlen er mwyn galluogi ysgolion i gymryd camau ar y cyfle cyntaf posibl ac felly mae'n argymhell bod lleihau'r amserlen i 20 diwrnod gwaith yn ddigonol.

Ymateb Estyn – Nid oes gan Estyn farn gref ynglŷn â'r mater hwn ond mae'n fodlon lleihau'r amserlen.

Cynnig – Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid diwygio'r Rheoliadau cyfredol er mwyn lleihau'r amserlen ar gyfer paratoi cynllun gweithredu ôl-aroelygiad i 20 diwrnod gwaith.

Crynodeb o'r sylwadau ychwanegol i'r ymgynghoriad

Crynodeb o'r sylwadau ychwanegol o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd a gyhoeddwyd yn electronig ar wefan Llywodraeth Cymru oedd:

- Dylid lleihau'r cyfnod o 35 diwrnod gwaith ar gyfer paratoi adroddiad yr arolygiad.
- Dylai fod mwy o gysondeb yn y ffordd y caiff ysgolion eu harolygu – ceir anghysondeb mawr o hyd o ran y timau a'r dyfarniadau a wnaed wrth gymharu adroddiadau a phrofiadau ysgolion eraill.
- Dylai fod terfyn ar faint o flynyddoedd y gall personél sydd wedi ymddeol ymgymryd â rôl arolygwyr er mwyn sicrhau bod gwybodaeth arolygwyr yn gyfredol.
- Dylid gwahanu'r broses o arolygu materion diogelu oddi wrth arolygiad addysgol ac ni ddylid rhoi rhybudd.
- Dylid cwtdogi ar y fframwaith arolygu a'i symleiddio gan ganolbwyntio ar y safonau a gyflawnwyd ac ansawdd darpariaeth.
- Dylid ystyried diwygio'r broses arolygu – gan arolygu Ysgolion Uwchradd ar yr un pryd â'u prif ysgolion cynradd bwydo a chyhoeddi'r adroddiadau gyda'i gilydd.
- Pryderon bod arolygwyr ond yn edrych ar y canlyniadau dros gyfnod o dair blynedd heb ystyried man cychwyn disgyblion.
- Pan fydd arolygiadau yn cael eu cynnal ym mis Medi bydd ysgolion yn cael rhybudd ym mis Gorffennaf ac yn cael mwy o amser i baratoi.
- Dylai arolygwyr gyrraedd darparwr yn barod i weld yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn hytrach na chwilio am dystiolaeth o'r data y mae eisoes wedi'u dadansoddi.
- Mae angen rhoi mwy o sylw i ansawdd a chynnwys ABCh yn hytrach na chyfeirio at gyfraddau presenoldeb a digwyddiadau llwyddiannus oddi ar yr amserlen yn unig.
- Pryderon ynglŷn â cholli arbenigedd pwnc yng ngweithlu'r arolygwyr am nad yw pynciau yn cael eu harolygu'n benodol yn ystod arolygiad.
- Mae'n ymddangos yn annheg os cewch chi ymweliad dilynol a bod eich sgôr wedi newid nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu ar y system.
- Mae angen canllawiau penodol ar y meini prawf i gael dyfarniad 'ardderchog'. Mae'n llawer rhy annelwig ar hyn o bryd ac nid yw'n fuddiol i ysgolion nac arolygwyr o ran llunio dyfarniadau dibynadwy a chyson.
- Nid yw'r gallu i ragweld pryd y bydd arolygiadau yn digwydd yn berthnasol i arolygiadau DSW ac felly byddem yn gochel rhag unrhyw resymeg dros newid i'r drefn arolygu gyffredinol o ganlyniad i anghysondebau mewn un neu ddau o'r sectorau addysg. Natur y

Fframwaith Arolygu Cyffredin yw sicrhau cysondeb ym mhob sector ac felly mae'n hanfodol bod pob barn yn cael ei hystyried.

- Ymddengys bod arolygiad yn cynnig lefel arall o atebolrwydd nad oes ei hangen pan fo arweinwyr system consortia wedi cael y dasg o herio ysgolion, categoreiddio consortia a bandio cenedlaethol.
- Byddai llawer o lywodraethwr am weld y cyfarfod â'r corff llywodraethu llawn yn cael ei adfer, yn enwedig i gael adborth gan yr arolygiad. Byddai hyn yn fuddiol hefyd o ran paratoi'r cynllun gweithredu ychydig yn gynt.
- Byddai'n ddefnyddiol pe gellid lleihau'r amserlen ar gyfer cyhoeddi adroddiad yr arolygiad (awgrymodd un ymatebydd 15 diwrnod gwaith).
- Mae rhai gwahaniaethau i'w hystyried rhwng Ysgolion/AB/DSW gan fod ysgolion yn gweithio ar sail tymhorau ond mae pob darparwr yn gweithio gyda dysgwyr drwy gydol y flwyddyn.
- Os mai bwriad AdAS yw symud i system reoli ddibapur ar gyfer DSW, yna bydd angen i ni sicrhau bod pob ffynhonnell o ddata wedi'i nodi'n glir er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth yn ystod y cyfnod arolygu.
- Gyda'r Adolygiad o Gymwysterau a'r posibilrwydd y caiff Rhaglenni Meysydd Dysgu eu cyflwyno bydd cryn newid ar gyfer y ddarpariaeth ôl-16 a fydd yn effeithio ar y drefnu arolygu ar ôl 2014.
- Mae dyfarniadau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar yr ysgol, megis gofal bugeiliol ac arweiniad yn cael eu bwrw i'r cysgodion gan ddyfarniadau sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o ddata ystadegol. Dylai arolygiadau wahaniaethu'n glir rhwng gwerthuso perfformiad ansoddol ysgol a dadansoddiad meintiol.
- Dylai pob darparwr addysg gynnar gael ei arolygu o fewn cyfnod o chwe blynedd, waeth faint o blant y mae wedi'i gofrestru i ofalu amdanynt. Dylid newid y rheoliad i sicrhau bod gofalywyr plant sy'n darparu'r cyfnod sylfaen yn cael eu harolygu hefyd.

Y camau nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o weithredu ar y cynigion hynny sy'n gofyn am newid deddfwriaeth gyfredol.

Rhestr ymatebwyr

1. Tony Bate
2. Sue Owen
3. Nigel Davies, awdurdod lleol Wreccsam
4. Dyfrig Ellis, Ysgol Gymraeg Lon Las
5. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
6. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
7. Emyr Wynne Jones, awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin
8. Heather Penney
9. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
10. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
11. Dr Andrew Cornish, Coleg Sir Gâr
12. Alan Mackay, A4E Wales
13. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
14. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
15. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
16. Peter Maddocks, Ysgol y Gader, Dolgellau
17. Steve Rees, Ysgol Gynradd Evenlode
18. Ysgol Gynradd Ystruth
19. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
20. G Higginbotham, Meifod Consulting Cyf
21. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
22. Mark Gunn, Ysgol Gynradd Gwndy
23. JM Alter, Ysgol Gyfun Llanilltud fawr, Bro Morgannwg
24. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
25. Reg Hughes
26. Mrs Shan Clark
27. Jane Jenkins, Ysgol Gynradd Moorland
28. A Lawrence
29. Llin Elis, Ysgol Nant y Coed
30. Mark Biltcliffe, Ysgol Gynradd Drury
31. Moya Russ, Ysgol Uwchradd Corpus Christie
32. Helen Jones, Ysgol y Clogau
33. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw

34. David Evans
35. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
36. Steven Downes, Consortiwm Canol De Cymru
37. Claire Armistead, Cyngor Sir Ddinbych
38. Gareth Wyn Roberts, AddysGar (Eduphile Ltd)
39. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddi-enw
40. Judith Evans, Coleg Morgannwg
41. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
42. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
43. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
44. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
45. Elspeth Crombie
46. Anne Gimson
47. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
48. Janet Robins, Ysgol Gynradd Goytre
49. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
50. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
51. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
52. David Hughes
53. Kate Thomas
54. Ysgol Cynfran
55. Perdita Molesley, Ysgol Amberleigh
56. Phil Harrhy, Ysgol Gynradd Maesglas
57. Charmaine Clinch, Archesgobaeth Rufeinig Gatholig Caerdydd
58. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
59. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
60. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
61. Michael Thomas
62. Rhian Loudon
63. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
64. Anne Carhart, Ysgol Maesteg
65. Helen Armitage, Cyngor Tref Conwy
66. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
67. Neil Pryce, Ysgol Gynradd Pil
68. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw

69. Dr P David Ellis
70. Kirsty Retallick, Coleg Cymunedol Tonypandy
71. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
72. Grant Santos, Vocational Skills Partnership (Wales) Ltd
73. Jon-Paul Guy
74. Claire Price, Ysgol Cas-gwent
75. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
76. Peter Duncan Haworth, Arolygydd Lleyg
77. Nicola Gamlin, Coleg Gwent
78. Llywodraethwyr Cymru
79. H Crich, Ysgol Uwchradd y Fflint
80. Martin Davies, Ysgol Glan Clwyd
81. Lee Hitchings, Ysgol Cwmtawe
82. Aled Davies, Ysgol Gymraeg Glan Cleddau
83. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
84. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
85. Y Parch Dr Stephen James, Esgobaeth Mynwy
86. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
87. Lisa Mytton, Acorn Learning Solutions
88. Steven Cruickshank, Coleg Cymunedol Tonypandy
89. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
90. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddi-enw
91. Gwilym Jones, Ysgol y Wern
92. Mrs Shirley Davis-Fox, ISA Training Limited
93. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
94. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
95. Lee Cummins, Ysgol Uwchradd Cei Conna
96. Steve Davies, Gwasanaeth Cyflawni Addysg, De-ddwyrain Cymru
97. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
98. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
99. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
100. Valerie Jones, Cymru Care Training Ltd
101. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
102. Keith Booker, Coleg Castell-nedd Port Talbot
103. Claire Protheroe, PACEY Cymru

104. David Finch, Y Coleg, Ystrad Mynach
105. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
106. Emma Verrier, Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru
107. Gareth Jones, ASCL
108. Ifor Gruffydd
109. Mrs J Gerrard
110. Ian Dickson, Coleg Glannau Dyfrdwy
111. Margaret Phelan, Undeb Prifysgolion a Cholegau
112. Paul Targett
113. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
114. Purnima Tanuku, NDNA Cymru
115. Richard Tither, Coleg Elidyr
116. Rebecca Williams, UCAC
117. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
118. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
119. Vanessa Morgan, Coleg Caerdydd a'r Fro
120. Val Simpson, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gwenfo
121. Owen Hathaway, NUT Cymru
122. Faye Ryan, PRP Training
123. Dr Phillip Dixon, ATL Cymru
124. Andrew Thraves, The GL Education Group
125. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
126. Mae'r ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw
127. Sion Meredith
128. Y Tad Timothy Gardner OP, Y Gwasanaeth Addysg Catholig
129. Helen Ridout a Sean Jenks, Ysgol Bryn Castell
130. Karen Evans, CyngACC
131. Daisy Seabourne, CLILC